

My Vote

My Voice

ID Pleidleisiwr a sut i ymgeisio am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr



Cynnwys:

ID ar gyfer pleidleisio	3
Ymgeisio am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr	6
Pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio	11
Ffyrdd eraill o bleidleisio	13
Rhestr Wirio Pleidleisio	16
Geiriau a ddefnyddir yn y deunydd darllen hawdd hwn	18

ID ar gyfer pleidleisio



Bydd angen i chi fynd â llun adnabod gyda chi pan fyddwch yn pleidleisio mewn **gorsaf bleidleisio**.



- Bydd angen i chi ddangos 1 math o ID o'r rhestr hon:
- pasbort
- trwydded yrru (mae trwydded dros dro yn iawn)
- cerdyn adnabod gyda **marc PASS**
- dogfen fewnfudo fometrig
- cerdyn adnabod amddiffyn



Mae rhai cardiau teithio rhatach a rhai cardiau adnabod cenedlaethol yn iawn.



Os yw eich llun adnabod yn hen, gallwch ei ddefnyddio os yw'r llun yn dal i edrych yn debyg i chi.



Am ragor o wybodaeth ynglŷn â beth allwch ei ddefnyddio fel llun adnabod, ewch i wefan y Comisiwn Etholiadol (<https://www.electoralcommission.org.uk/voterID>)



neu ffoniwch eu llinell gymorth ar **0800 328 0280**.



Os nad oes gennych unrhyw ID ar y rhestr



neu os nad ydych chi'n siŵr bod eich llun adnabod yn dal i edrych yn debyg i chi,



gallwch wneud cais am **Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr.**



Mae **Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr** yn rhad ac am ddim.



Byddwch yn gallu defnyddio eich **Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr** fel llun adnabod pan fyddwch yn pleidleisio mewn **gorsaf bleidleisio.**

Gwneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr



Bydd angen i chi fod wedi cofrestru i bleidleisio cyn y gallwch wneud cais am **Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr**



Mae'n syniad da i wneud cais cyn gynted â phosibl rhag ofn bod angen i'ch cyngor lleol wirio unrhyw fanylion gyda chi.



Gallwch wneud cais am **Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr** ar-leinar ar wefan y llywodraeth (<https://www.gov.uk/apply-for-photo-id-voter-authority-certificate>)



neu drwy lenwi ffurflen gais bapur.



Os oes angen help arnoch i wneud cais am **Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr**, neu os ydych eisiau ffurflen gais bapur,



Cysylltwch â'ch cyngor lleol.



I ddod o hyd i fanylion cyswllt eich cyngor lleol, ewch i wefan y Comisiwn Etholiadol (<https://www.electoralcommission.org.uk/voter>)



neu ffoniwch eu llinell gymorth ar **0800 328 0280**.




Pan fyddwch yn gwneud cais am eich **Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr** bydd angen i chi wybod eich:

- enw
- cyfeiriad
- dyddiad geni



Bydd yn ddefnyddiol os ydych yn gwybod eich Rhif Yswiriant Gwladol pan fyddwch yn gwneud cais am eich **Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr**



Gallwch wneud cais am **Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr** os nad ydych yn gwybod eich Rhif Yswiriant Gwladol.




Ond os nad ydych yn gwybod eich Rhif Yswiriant Gwladol, bydd eich cyngor lleol yn cysylltu â chi i ofyn am rywbeth arall i brofi pwy ydych chi.



Pan fyddwch yn gwneud cais am **Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr** bydd angen i chi anfon llun gyda'r ffurflen.



Mae rheolau am y math o lun y gallwch ei anfon.



Mae'r rheolau yn debyg i'r rheolau ar gyfer llun pasbort.



Os nad oes gennych lun sy'n dilyn y rheolau, gall eich cyngor lleol dynnu llun i chi.



I gael mwy o wybodaeth am y rheolau ar gyfer y llun, ewch i wefan y Comisiwn Etholiadol (<https://www.electoralcommission.org.uk/voterID>)



neu ffoniwch eu llinell gymorth ar **0800 328 0280**.

Pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio




Pan gyrhaeddwch yr **orsaf bleidleisio**, bydd aelod o'r staff yn gofyn am eich enw a'ch cyfeiriad.



Byddan nhw'n chwilio amdanoch ar y gofrestr pleidleisio.



Byddan nhw'n gofyn am eich llun adnabod.



Os ydyn nhw'n hapus gyda'ch llun adnabod, byddan nhw'n rhoi eich **papur pleidleisio** i chi a rhoi gwybod i chi ble gallwch ei lenwi.



Bydd man preifat yn yr **orsaf bleidleisio** lle gall y staff edrych ar eich llun adnabod.



Os ydych chi eisiau i'r staff edrych ar eich llun adnabod yn y man preifat yn yr **orsaf bleidleisio**, rhowch wybod iddyn nhw pan gyrhaeddwch yr **orsaf bleidleisio**.



Os oes angen help arnoch pan fyddwch yn yr **orsaf bleidleisio**, gofynnwch i'r staff.

Ffyrdd eraill o bleidleisio



Pleidleisio drwy'r post

Os hoffech bleidleisio drwy'r post, bydd angen i chi lenwi ffurflen gais.



Does dim angen llun adnabod i bleidleisio drwy'r post.



Bydd eich **papur pleidleisio** yn cyrraedd drwy'r post.



Llenwch y **papur pleidleisio** a'i anfon yn ôl at eich cyngor lleol yn eich pecyn pleidlais drwy'r post cyn y dyddiad cau.



Os nad oes digon o amser i bostio eich pecyn pleidlais drwy'r post, gallwch fynd ag ef i'ch **gorsaf bleidleisio** neu ei roi i swyddog cyngor lleol ar ddiwrnod yr etholiad.

An illustration of a registration form. It is a yellow rectangular card with the following fields: "Name" with a horizontal line, "Address" with two horizontal lines, and "Phone Number" with a horizontal line.

Pleidleisio trwy ddirprwy
Os ydych eisiau pleidleisio **trwy ddirprwy** bydd angen i chi lenwi ffurflen gais erbyn y dyddiad cau.



Bydd angen i'r person a ddewisoch i bleidleisio drosoch fynd i'ch **gorsaf bleidleisio** i bleidleisio.



Bydd angen iddyn nhw ddangos eu llun adnabod.



Bydd dim angen iddyn nhw ddangos eich llun adnabod chi i bleidleisio drosoch.



Os na allwch fynd i'r **orsaf bleidleisio** oherwydd argyfwng, gallwch wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy brys tan yr amser cau ar ddiwrnod yr etholiad.



Am ragor o wybodaeth, neu i gael ffurflen gais drwy'r post neu drwy ddirprwy, ewch i wefan y Comisiwn Etholiadol (<https://www.electoralcommission.org.uk/voter>)

Rhestr Wirio ar gyfer Pleidleisio



Efallai yr hoffech ddefnyddio'r rhestr wirio ar y dudalen nesaf i wirio a ydych yn barod i bleidleisio.



Ydw i wedi cofrestru i bleidleisio?



Mae'n rhaid i chi gofrestru i bleidleisio erbyn y dyddiad cau.



Oes gen i lun adnabod?



Os nad oes, ydw i wedi gwneud cais am **Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr?**




Mae'n rhaid i chi wneud cais am eich **Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr** erbyn y dyddiad cau.



Ydy fy llun adnabod yn barod i fynd ag ef i'r **orsaf bleidleisio**

Geiriau a ddefnyddir yn y deunydd darllen hawdd hwn



Papur pleidleisio Y darn o bapur rydych yn ei lenwi i bleidleisio.



Trwy ddirprwy Os ydych yn gwneud rhywbeth trwy ddirprwy, rydych yn ei wneud ar ran rhywun arall. Os pleidleisiwch trwy ddirprwy, mae'n golygu gofyn i rywun rydych yn ymddiried ynddynt bleidleisio drosoch.



Marc PASS Mae PASS yn golygu Cynllun Safonau Prawf Oedran. Os oes gan sefydliad gerdyn adnabod gyda marc PASS, mae'n golygu bod y sefydliad wedi cael ei wirio. Mae'r heddlu'n meddwl bod y marc PASS yn syniad da.



Gorsaf bleidleisio Y man lle byddwch yn mynd i bleidleisio mewn etholiad.



Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr Dogfen am ddim y gallwch ei chael i'w defnyddio fel llun adnabod ar gyfer pleidleisio mewn etholiad.

Fy Llais Fy Mhleidlais i yw benderfynol o annog pobl gyda anableddau dysgu a phobl awtistig i bleidleisio.

Ewch i www.myvotemyvoice.org.uk i gael mwy o wybodaeth..

Cysylltwch â ni::

info@myvotemyvoice.org.uk
Twitter: #MyVoteMyVoice



Gyda diolch i Photosymbols a'r Comisiwn Etholiadol

